Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Codi Ysgol Gymraeg

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 10 er y bydd angen esbonio rhai geiriau ac ymadroddion wrth fynd trwy'r ymarfer. O newid y cwestiynau mae modd cynnig y gweithgaredd ar unrhyw lefel – fel adolygu cyffredinol neu ymarfer ar gyfer math arbennig o batrwm.

Byddai modd defnyddio'r ymarfer hwn mewn noson gymdeithasol.

Dull

Cwis syml a geir yma lle mae'r cwestiynau ar y cardiau i gyd yn addas, o ran iaith, ar gyfer myfyrwyr Mynediad. Nid ydy'r atebion, fodd bynnag, i gyd yn amlwg. Mae modd ychwanegu cwestiynau, wrth reswm.

Rhannwch y myfyrwyr yn ddau dîm – Tîm A a Thîm B. Dylid nodi bod angen i bob tîm godi Ysgol Gymraeg efo llawr, dwy wal, to, drws, pedair ffenestr, simdde arwydd a phennaeth. (Gweler y canllaw ar gyfer y tiwtor). Mae'r timau yn ennill nwyddau adeiladu trwy ateb cwestiynau cwis yn gywir. Y tîm cyntaf i orffen yr ysgol sy'n ennill. Mae pawb wedyn yn cael cyfle i feddwl am enwau ar gyfer yr Ysgol a'r pennaeth. Sut ddyn/ddynes ydy'r pennaeth? Lle mae'n byw?

Cewch ofyn cwestiynau uniongyrchol neu gwestiynau aml-ddewis. Os rhoddir cwestiynau aml-ddewis, rhaid derbyn yr ateb cyntaf a roddir (yn unig). Os ydy'r ateb yn anghywir, mae modd symud y cerdyn hwnnw i gefn y pac a'i ddefnyddio eto.

Taflen y Tiwtor

Codi Ysgol Gymraeg

Lle ysgrifennon nhw'r siec gyntaf yn y byd am £1,000,000? * Caerdydd ✔ * Efrog Newydd * Llundain	Pryd gaeth Michael Heseltine ei eni? * 1923 * 1933 ✔ * 1943
Pa gastell yng Nghymru sydd â thŵr fel Tŵr Pisa? * Castell Caerdydd * Castell Caerffili ✔ * Castell Caernarfon	O le mae Neil Kinnock yn dwad yn wreiddiol? * Tredegar ✔ * Trehopcyn * Tresgawen
Syniad pwy oedd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol? * Aneurin Bevan ✔ * Lloyd George * Tony Blair	Pa fôr sydd rhwng De Cymru a Chernyw? * Môr Hafren ✔ * Y Môr Coch * Y Môr Tawel
Be' ydy'r ddwy iaith sy'n fwya tebyg i'r Gymraeg? * Gaeleg a Gwyddeleg * Lladin a Groeg * Llydaweg a Chernyweg ✔	Be' ydy prifddinas Cymru? * Abertawe * Aberystwyth * Caerdydd ✔

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Codi Ysgol Gymraeg

Be' ydy enw ynys y cariadon yng Nghymru? * Ynys Enlli * Ynys Llanddwyn ✔ * Ynys Seiriol	**Pa Gymro oedd y cynta i weld America?** * Arthur * Lloyd George * Madog ✔
Pryd dechreuodd y Sianel Deledu Gymraeg S4/C? * 1972 * 1982 ✔ * 1992	**Pa sir yng Nghymru ydy Mam Cymru?** * Gwynedd * Morgannwg * Ynys Môn ✔
Be' ydy'r llyn mwya yng Nghymru? * Llyn Alaw * Llyn Cefni * Llyn Tegid (Y Bala) ✔	**Ar ba stryd yn Llundain mae Banc Lloegr?** * Mayfair * Pall Mall * Threadneedle Street ✔
Lle yng Nghymru bydd Cwpan Ryder yn 2010? * Casnewydd ✔ * Glannau Dyfrdwy * Nefyn	**O le roedd Padrig, Nawddsant Iwerddon yn dwad?** * Cymru ✔ * Lloegr * Yr Alban

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Codi Ysgol Gymraeg

Be' oedd enw ci'r Tywysog Llywelyn ? * Gelert ✔ * Rover * Smot	O le roedd Stanley Baker, yr actor yn dwad? * Y Rhondda ✔ * Caerdydd * Tregarth
Yn y Mabinogion, pwy oedd cariad Culhwch? * Olwen ✔ * Sharon * Tracy	O le roedd Grace Williams, y gyfansoddwraig, yn dwad? * Bangor * Pwllheli * Y Barri ✔
O le, yng ngogledd Cymru, mae fferi yn hwylio i Iwerddon * Bangor * Caergybi ✔ * Pwllheli	Am be' roedd Jim Driscoll yn enwog? * Dringo * Paffio ✔ * Chwarae Pêl-droed
Am be' roedd porthladd y Barri yn enwog ym 1900? * Bananas * Glo ✔ ∑ * Tun	Pryd bu farw James James, cyfansoddwr yr anthem genedlaethol? * 1897 * 1863 * 1902 ✔

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Codi Ysgol Gymraeg

Pwy ddechreuodd y Gyfnewidfa Stoc yn Llundain ym 1566? * Gordon Brown * Richard Clwch o Fachygraig✔ * Lewis Morus o Ynys Môn	Yn erbyn pwy gaeth Robert Croft ei gap cynta? * Pakistan * Awstralia * India✔
Lle gaeth Syr Anthony Hopkins ei eni? * Pontypridd * Mynwy * Port Talbot ✔	O le roedd y Mauratania yn hwylio i Efrog Newydd ym 1909? * Abergwaun✔ * Abermaie * Caerdydd
O le mae Ian Hislop (Have I Got News for You) yn dwad? * Aberystwyth * Caerdydd * Abertawe ✔	Mae rhywbeth o Drefforest gan Tom Jones yn yr ardd yn America. Be'? * Bar * Carreg * Bocs Ffôn ✔
Faint o bres mae pobl Cymru yn wario ar dybaco bob blwyddyn? * £875 miliwn ✔ * £375 miliwn * Dan £200 miliwn	Be' ydy cwestiwn yr Archdderwydd yn yr Eisteddfod? * A oes problem? * A oes heddwch? ✔ * A oes ots?

Y BANC

Ymarferion Llafar

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Codi Ysgol Gymraeg